
WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Bro Morgannwg

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod y ddogfen: 661A2011



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gynnal archwiliadau blynyddol o'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus a gaiff ei wario yng Nghymru, gan gynnwys y £15 biliwn a ddyfernir i Gymru'n flynyddol gan Senedd San Steffan. Caiff bron £5.5 biliwn o'r arian hwn ei roi i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru ar ffurf grantiau cyffredinol a phenodol. Yn ei thro, mae llywodraeth leol yn codi £2.1 biliwn pellach drwy dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gwneud y gorau o arian cyhoeddus drwy hybu gwelliannau fel y gall pobl Cymru gael budd o wasanaethau cyhoeddus atebol sydd wedi'u rheoli'n dda ac sy'n cynnig y gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn ymrwymedig i nodi a lledaenu arfer da ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth gan Steve Barry, John Golding a chydweithwyr o dan arweiniad Jane Holownia i gynnal yr Asesiad Gwella a llunio'r adroddiad hwn.

# Cynnwys

**Crynodeb a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 8

Mae gan y Cyngor drefniadau da ar waith ar gyfer rheoli ei adnoddau a llywio newid ond mae ganddo gryn dipyn i'w wneud o hyd i wella'r trefniadau ar gyfer rheoli ei dir a'i eiddo 10

Gall y Cyngor ddangos gwelliant yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth allweddol ond mae perfformiad o ran darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl yn parhau'n wael er gwaethaf gwelliannau dros y blynyddoedd diwethaf 15

Mae'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i wella diogelwch cymunedol a gwasanaethau i ddefnyddwyr penodol 15

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol ond mae'r gwaith o ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl yn parhau'n gymharol wan 16

Mae canlyniadau mewn ysgolion yn dda ond bu dirywiad o ran presenoldeb mewn ysgolion uwchradd 21

Mae gan y Cyngor drefniadau da ar waith ar gyfer pennu ei amcanion a monitro'r gwaith o gyflawni camau gweithredu ac mae ar gam cynnar o ran gwella'r ffordd y mae'n gwerthuso effaith yr hyn a wna 22

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 25

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Fro Morgannwg a Chyngor Bro Morgannwg 26

**Atodiad 3**
Cyfrifon Cyngor Bro Morgannwg a'i ddefnydd o adnoddau 28

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bro Morgannwg 31

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella a darparu eu gwasanaethau. Gan ystyried gwaith arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, a gwaith archwilio Swyddfa Archwilio Cymru a'r Archwilydd Penodedig, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae tair prif adran i'r adroddiad sy'n cwmpasu'r gwaith o gynllunio, darparu a gwerthuso gwelliant gan Gyngor Bro Morgannwg (y Cyngor).

2 Ar y cyfan, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad fod gan y Cyngor drefniadau rheoli corfforaethol cadarn ar waith a'i fod yn sicrhau gwelliannau ar draws ystod o wasanaethau. Drwy fireinio trefniadau adolygu perfformiad gall y Cyngor lunio safbwynt cliriach o'r canlyniadau y mae wedi'u cyflawni.

3 Canfuom fod trefniadau rheoli ariannol effeithiol, defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chryfderau o ran rheoli pobl yn sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio'r rhan fwyaf o'i adnoddau ond bod ganddo gryn dipyn i'w wneud o hyd i wella'r gwaith o reoli ei dir a'i eiddo.

4 Canfuom hefyd y gall y Cyngor ddangos gwelliant yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth allweddol ond mae perfformiad o ran darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl yn parhau'n wael er gwaethaf gwelliannau dros y blynyddoedd diwethaf, am fod plant a phobl ifanc yn aros 1,139 o ddiwrnodau ar gyfartaledd ac oedolion yn aros 544 o ddiwrnodau ar gyfartaledd cyn i'r grantiau gael eu darparu. Daethom i'r casgliad hwn yn seiliedig ar y canlynol:

- mae'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i wella diogelwch cymunedol; mae'r gwaith o gyd-leoli staff wedi gwella gwasanaethau lleol a chyflymu amseroedd ymateb; mae camau gweithredu llwyddiannus wedi'u cymryd yn erbyn achosion anghyfreithlon o werthu alcohol ac mae gwell cymorth wedi arwain at leihad mewn cyfraddau aildroseddu ymysg troseddwyr ifanc;
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran darparu gwelliannau mewn gofal cymdeithasol;
- er bod grantiau cyfleusterau i'r anabl yn cael eu darparu'n gyflymach, mae plant a phobl ifanc yn dal i wynebu amseroedd aros hir; ac
- mae canlyniadau cyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion yn dda ond bu dirywiad o ran presenoldeb mewn ysgolion uwchradd.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein barn ar hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad fod gan y Cyngor drefniadau da ar waith ar gyfer pennu ei amcanion a monitro'r gwaith o gyflawni camau gweithredu ac mae ar gam cynnar o ran gwella'r ffordd y mae'n gwerthuso effaith yr hyn a wna.

# Cynigion ar gyfer gwella

## Cynigion ar gyfer gwella

**Gwella asesiad perfformiad drwy**

**C1** Parhau â'r gwaith o ddatblygu mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau drwy symud o drefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddangosyddion perfformiad ac ar gwblhau cam gweithredu, neu fethu â gwneud hynny, a sicrhau:

- y caiff y bwriad ei fynegi mewn ffordd sy'n sicrhau y gellir mesur cynnydd; a
- bod trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn gwerthuso perfformiad aelodau yn rheolaidd o fewn cyd-destun yr amcan y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni.

**Rydym hefyd wedi rhoi adborth i'r Cyngor ar feysydd gwasanaeth penodol**

**C2** Gweithredu cynigion penodol ar gyfer gwella sy'n codi o'r adolygiadau canlynol.

**Adnoddau Dynol**

- Cyflwyno adroddiadau perfformiad rheolaidd a ffurfiol yn asesu elfennau allweddol o'r swyddogaeth Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau y gall y tîm o uwch reolwyr ac aelodau graffu ar y gwasanaeth yn fwy rheolaidd a systematig.
- Cyn ad-drefnu'r gwasanaeth Adnoddau Dynol, dylid gwerthuso'r gwasanaeth cyfredol ac opsiynau o ran newid er mwyn helpu i sicrhau y gall arfer gorau a'r 'hyn sy'n gweithio' barhau a bod unrhyw fodel newydd yn mynd i'r afael â gwendidau cydnabyddedig.
- Sicrhau bod pob gwasanaeth yn ystyried sut y gellir dogfennu sgiliau a dysgu yn eu meysydd a'u trosglwyddo i aelodau eraill o staff er mwyn helpu i gadw'r broses ddysgu o fewn y sefydliad a datblygu trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth priodol.

**Rheoli Asedau**

- Sicrhau y caiff y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ei ddiweddaru a'i fod yn dangos yn glir sut y bydd asedau'n ategu'r gwaith o gyflawni amcanion corfforaethol.
- Sicrhau y caiff pob ased ei fapio a'i ddeall o ran p'un a oes angen ei gadw fel y mae, newid y defnydd ohono, neu ei waredu.
- Datblygu trefniadau rheoli perfformiad priodol o amgylch y defnydd o asedau.

## Cynigion ar gyfer gwella

**Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl**

Gwella perfformiad drwy:

- Fireinio prosesau yn unol â chynigion manwl ar gyfer gwella yn Atodiad Un o'n hadroddiad ar wahân ar y pwnc hwn.
- Cyflwyno dulliau caffael modern i ddatblygu cytundebau fframwaith a chontractau partneriaeth ar gyfer gwasanaethau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.
- Dysgu mwy am farn cwsmeriaid ar y broses Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a gwneud newidiadau yn ôl yr angen.

Gwella trefniadau craffu, goruchwylio a rheoli strategol drwy:

- Fabwysiadu argymhellion Archwilio Mewnol ar gyfer gwella rheolaethau gweinyddol ac ariannol a thrwy gyflwyno profion archwilio mewnol rheolaidd.
- Datblygu ystod eang o fesurau meintiol ac ansoddol i alluogi'r Cabinet ac aelodau'r pwyllgor craffu i werthuso'r modd y darperir gwasanaethau a'r canlyniadau i ymgeiswyr.

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

6 Paratowyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Ar dudalen 2 ceir esboniad cryno o'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ei wneud.

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella a darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn darparu rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau o Gymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni a sut mae'n gwneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ystyried hunanasesiad y Cyngor ei hun.

8 Yn yr adroddiad hwn, rydym yn nodi'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei wneud i wella ei wasanaethau. O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad gan wneud argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb yn gyhoeddus i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella - os byddwn yn gwneud cynigion i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd.

9 Hoffem wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn i ni drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

10 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r cyngor. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu 34 o amcanion gwella ar draws y saith maes â blaenoriaeth. Ni wnaethom werthuso'r holl weithgarwch ond yn hytrach penderfynwyd canolbwyntio ar elfennau allweddol o drefniadau rheoli corfforaethol sy'n sail i'r ffordd y gall y Cyngor wneud defnydd effeithiol o'i adnoddau a chanlyniad ei weithgarwch mewn meysydd gwasanaeth penodol. Eleni, ni chynhaliwyd unrhyw asesiad o'r gwaith o gyflawni amcanion adfywio'r Cyngor. Yn hytrach, edrychwyd yn fanwl ar ba mor dda y mae'r Cyngor:

- yn cyflawni ei nodau ar gyfer rheoli ei adnoddau corfforaethol a darparu arweinyddiaeth gymunedol a'r cynnydd y mae'n ei wneud gyda phartneriaid o ran datblygu'r Strategaeth Gymunedol;
- yn cyflawni ei nodau o ran diogelwch cymunedol;

- yn cyflawni ei nodau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol; ac
- wedi asesu a chyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad yn erbyn ei amcanion ar gyfer 2010-11.

11 Rydym hefyd wedi cyfeirio at y gwaith a wnaed yn ystod 2011 gan gyrff rheoleiddio eraill fel Estyn, AGGCC a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

12 Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a'r wybodaeth a rennir gennym, a chanfyddiadau'r gwaith a flaenoriaethwyd a gyflawnwyd eleni.

# Mae gan y Cyngor drefniadau da ar waith ar gyfer rheoli ei adnoddau a llywio newid ond mae ganddo gryn dipyn i'w wneud o hyd i wella'r trefniadau ar gyfer rheoli ei dir a'i eiddo

**Mae'r Cyngor yn rheoli ei arian yn dda ac mae'n dangos arweinyddiaeth ariannol gadarn ac atebol**

13 Nododd y Cyngor fod angen sicrhau cyfanswm o £7.24 miliwn o arbedion yn 2011-12, a nododd y broses gyllidebol ar gyfer 2011-12 £9.3 miliwn o arbedion (mwy na'r hyn sydd ei angen mewn gwirionedd). Mae'r Cyngor hefyd yn gwybod y bydd yn wynebu diffyg o £17.83 miliwn dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2011-12 a 2013-14 ac mae ei baratoadau cyllidebol yn parhau i gynllunio ar gyfer y diffyg hwn. Mae nifer o ffyrdd newydd o weithio yn cael eu cyflwyno gyda'r nod o sicrhau arbedion effeithlonrwydd, gwella canlyniadau gwasanaeth ac arbed arian. Cyflawnwyd y targedau o ran arbedion effeithlonrwydd ariannol a rhagorwyd arnynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chymorth diwylliant o ymwybyddiaeth ariannol ymhlith y rheolwyr.

14 Mae'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid, TGCh ac Eiddo yn gweithredu fel Gweithgor Cyllideb y Cyngor ac yn darparu cyfeiriad ariannol clir. Prif amcan y Cyngor yw parhau i ddarparu'r holl wasanaethau y mae wedi'u darparu yn y gorffennol, ond gan eu darparu mewn ffordd fwy effeithlon. Dim ond pan fetho popeth arall y caiff gwasanaethau i ddefnyddwyr eu cwtogi. Wrth lunio'r gyllideb, ceir trafodaethau a deialog rhwng yr adran gyllid ac adrannau eraill y Cyngor er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl cyflawni cymaint â phosibl o amcanion 'uchelgeisiol' y Cyngor. Mae system strwythuredig iawn y Cyngor o drefniadau ar gyfer adroddiadau perfformiad corfforaethol yn sicrhau y gellir creu cysylltiadau effeithiol rhwng cynlluniau corfforaethol (gan gynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig), darparu gwasanaethau, targedau perfformiad a chyllid gweithredu.

15 Bob blwyddyn dros yr wyth mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi llunio Cynllun Ariannol Tymor Canolig tair blynedd. Yn 2011-12, bydd y Cyngor yn llunio dau gynllun o'r fath, a hynny ym mis Ionawr yn hytrach na'r haf i sicrhau y gall y Cynllun lywio'r broses o bennu cyllideb yn uniongyrchol. Caiff y cynlluniau hyn eu hysgrifennu'n dda ac maent yn cyflwyno materion ariannol mewn ffordd sy'n debygol o fod yn hygyrch ac yn ddealladwy i'r rheini nad ydynt yn arbenigwyr ariannol. Mae penderfyniadau yn seiliedig ar wybodaeth ariannol. Mae'r aelodau yn adolygu perfformiad ariannol y Cyngor yn rheolaidd. Gall deiliaid cyllidebau drafod gyda'u cyfrifwyr, a gellir teilwra adroddiadau ar gyllid i ddiwallu eu hanghenion o ran arddull cyflwyno ac amseru/amlder. Caiff adroddiadau monitro refeniw a chyfalaf ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu perthnasol bob mis. Wedyn caiff yr adroddiadau hyn eu dwyn ynghyd i greu adroddiad cyffredinol i'r Cabinet.

16 Mae gan y Cyngor systemau da ar waith i reoli llawer o'r amgylchiadau newidiol a'r rhan fwyaf o'r risgiau y mae'n eu hwynebu. Caiff Grŵp Rheoli Risg Gorfforaethol y Cyngor ei gadeirio gan y Pennaeth Cyfrifyddu a Rheoli Adnoddau. Mae cysylltiadau rhwng y Grŵp a'r prosesau cynllunio gwasanaeth ac mae'n nodi risgiau ariannol ar wahân sy'n benodol ar gyfer gwasanaethau arbennig neu sy'n risgiau 'cyffredinol'. I'r graddau y gellir nodi risgiau (megis chwyddiant ac incwm is), cânt eu hystyried a'u cynnwys wrth lunio cynlluniau ariannol. Ystyrir y risg i enw da'r Cyngor hefyd.

17 Rhoddodd yr archwilydd allanol a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor yn ddiweddar, a daeth i'r casgliad fod y datganiadau ariannol yn foddhaol. Mae Atodiad 3 yn rhoi mwy o fanylion.

**Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu o ran darparu gwasanaethau a chyflawni arbedion effeithlonrwydd**

18 Mae'r Cyngor wedi sefydlu sylfaen dechnolegol a threfniadau llywodraethu TGCh cadarn ac mae'n defnyddio technoleg i gyflawni arbedion effeithlonrwydd a thrawsnewid y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r Cyngor yn defnyddio TGCh i alluogi staff a chynghorwyr i weithio'n fwy effeithlon drwy reoli dogfennau'n electronig, cefnogi trefniadau gweithio symudol drwy ddefnyddio cyfarpar fel 'pennau deallus' sy'n cofnodi gwybodaeth i'w throsglwyddo i gyfrifiaduron gan arbed amser i staff, a darparu cyfrifiaduron, cysylltiad band eang a mynediad i systemau gwybodaeth y Cyngor o'r cartref i bob cynghorydd. Mae'r ffyrdd y gall pobl gysylltu â'r Cyngor a defnyddio gwasanaethau wedi'u gwella drwy wefannau sy'n darparu gwybodaeth ac yn galluogi trafodion 'ar-lein', ac mae ffyrdd newydd o gysylltu â'r Cyngor a chael gwybodaeth wedi'u cyflwyno, megis negeseuon testun, y defnydd o rwydweithiau cymdeithasol, a gwasanaethau e-bost. Mae perfformiad y gwasanaeth cymorth TGCh yn dda ac yn galluogi gwasanaethau eraill y Cyngor i ddatblygu.

19 Mae Strategaeth TGCh y Cyngor ar gyfer 2010-2014 yn cefnogi ac yn ategu amcanion gwella'r sefydliad ac yn unol â Strategaeth TGCh Genedlaethol Cymru. Fe'i datblygwyd gan y Pennaeth TGCh mewn ymgynghoriad â Phenaethiaid Gwasanaethau, ac fe'i hategir gan gynllun gweithredu. Mae'r Penaethiaid Gwasanaethau yn adolygu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu'n flynyddol i sicrhau bod y strategaeth yn gyfredol a bod y camau gweithredu a fwriedir yn cael eu cyflawni. Mae'r strategaeth yn cynnwys nodau sy'n ymwneud â sicrhau darpar arbedion ac arbedion effeithlonrwydd drwy gydweithredu â dau gyngor arall.

20 Mae'r Cyngor yn rheoli ei asedau TGCh yn effeithiol ac mae trefniadau ar waith i fodloni'r galw posibl gan wasanaethau am gymorth TGCh drwy eu cynlluniau gwasanaeth. Mae lle i wneud defnydd gwell o wybodaeth am berfformiad o ran y defnydd o sianeli mynediad cwsmeriaid gwahanol y Cyngor i lywio ac annog gwelliant pellach.

**Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith i ddatblygu ei swyddogaeth Adnoddau Dynol**

21 Mae'r Cyngor yn datblygu strategaeth Adnoddau Dynol sydd â'r nod o fod yn gyson a chefnogi ei amcanion corfforaethol ehangach. Caiff gwaith y swyddogaeth Adnoddau Dynol a'r Pennaeth Gwasanaeth ei adolygu gan y Cyfarwyddwr Cyllid, TGCh ac Eiddo fel rhan o drefniadau goruchwylio rheolaidd a chan Arweinydd y Cabinet dros Adnoddau Dynol fel rhan o'r broses arfarnu flynyddol, a chaiff y gwaith o ddarparu'r Cynllun Gwasanaeth Adnoddau Dynol ei fonitro gan y Pwyllgor Craffu ar Adnoddau Corfforaethol yn ogystal â'r Pennaeth Gwasanaeth a'i uwch reolwyr, ond gall hyn fod yn gymharol anffurfiol.

22 Mae'r gwasanaeth yn helpu i sicrhau bod gan reolwyr y sgiliau newydd sydd eu hangen arnynt i lywio trawsnewid drwy ddarparu hyfforddiant ar reoli newid ac adolygu effaith yr hyfforddiant hwnnw. Mae polisïau fel y polisi rheoli absenoldeb ar waith i wella argaeledd staff, ac mae'r gwasanaeth Adnoddau Dynol yn cefnogi rheolwyr o ran gweithredu'r polisi hwnnw sydd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, wedi lleihau absenoldeb staff oherwydd salwch yn y Cyngor. Mae trefniadau cynllunio'r gweithlu ar waith a chaiff cynllun gweithlu corfforaethol ei gyhoeddi yn y dyfodol agos. Caiff y cynllun gweithlu corfforaethol hwn ei lunio yn sgîl cydweithio rhwng meysydd gwasanaeth a'r tîm corfforaethol, a bydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol a thargedau ariannol. Caiff risgiau eu nodi a'u monitro gan y tîm rheoli gwasanaethau fel rhan o'r broses o gynllunio gwasanaethau ac fel rhan o waith y tîm rheoli corfforaethol o reoli risgiau corfforaethol (er enghraifft, mae gwerthuso swyddi yn risg gorfforaethol).

23 Mae ein trosolwg yn dangos bod angen i'r Cyngor wella tri maes er mwyn gwella'r trefniadau sydd eisoes ar waith ac i ddiogelu'r arfer gorau y mae eisoes wedi'i sefydlu. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r materion hyn ac mae naill ai'n mynd i'r afael â hwy ar hyn o bryd neu wedi cynllunio camau i fynd i'r afael â hwy yn y dyfodol agos. Byddwn yn cadw llygad ar y maes hwn i fonitro cynnydd dros y misoedd nesaf.

**Adnoddau Dynol - cynigion ar gyfer gwella**

- Cyflwyno adroddiadau perfformiad rheolaidd a ffurfiol yn asesu elfennau allweddol o'r swyddogaeth Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau y gall y tîm o uwch reolwyr ac aelodau graffu ar y gwasanaeth yn fwy rheolaidd a systematig.
- Cyn ad-drefnu'r gwasanaeth Adnoddau Dynol, dylid gwerthuso'r gwasanaeth cyfredol ac opsiynau o ran newid er mwyn helpu i sicrhau y gall arfer gorau a'r 'hyn sy'n gweithio' barhau a bod unrhyw fodel newydd yn mynd i'r afael â gwendidau cydnabyddedig.
- Sicrhau bod pob gwasanaeth yn ystyried sut y gellir dogfennu sgiliau a dysgu yn eu meysydd a'u trosglwyddo i aelodau eraill o staff er mwyn helpu i gadw'r broses ddysgu o fewn y sefydliad a datblygu trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth priodol.

**Mae'r Cyngor ar gam cynnar o ran gwella'r ffordd y mae'n rheoli ei asedau tir ac eiddo, ond mae ganddo gryn dipyn i'w wneud o hyd**

24 Mae'r Cyngor wedi bod yn datblygu ei ddull o reoli ei asedau tir ac eiddo. Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol diwygiedig ym mis Tachwedd 2010 ac mae trefniadau ar waith i'w ddiweddaru. Mae'r Cyngor yn gwella gallu a galluogrwydd drwy benodi chwe aelod newydd o staff a Rheolwr Asedau. Cymeradwywyd y fframwaith polisi sydd ei angen i gyflwyno safonau newydd o ran gofod a ffyrdd o weithio yn ddiweddar. Mae uwch aelodau o staff wedi ymrwymo i weithredu'r newidiadau sydd eu hangen i wella'r trefniadau rheoli asedau.

25 Mae'r gwaith o wella trefniadau rheoli asedau yn y Cyngor ar gam cymharol gynnar, ac mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:

- deall sut y gellir defnyddio asedau'n fwy effeithiol i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol;
- mapio asedau - beth sydd gan y Cyngor a beth sydd ei angen arno, a chytuno ar strategaeth ar gyfer gwaredu asedau dros ben
- meithrin cydberthnasau â phartneriaid sector cyhoeddus ym Mro Morgannwg, fel y gellir manteisio ar gyfleoedd i rannu safleoedd, er enghraifft; ac
- atgyfnerthu'r trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer rheoli asedau - gan gynnwys adeiladu cronfeydd data sy'n cynhyrchu data o ansawdd uchel a phennu targedau ystyrlon fel y gall y Cyngor fonitro ei gynnydd.

26 Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r pwyntiau hyn ac mae ganddo gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hwy. O ystyried sefyllfa ariannol y Cyngor, a'r arbedion posibl y gellir eu cyflawni drwy reoli asedau'n well, credwn y dylai mynd i'r afael â'r gwendidau hyn o ran rheoli asedau fod yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor ac y dylid rhoi dulliau ar waith i sicrhau bod y newidiadau arfaethedig wedi eu hategu gan yr adnoddau angenrheidiol ac yn cael sylw uwch aelodau o staff.

**Rheoli Asedau - cynigion ar gyfer gwella**

- Sicrhau y caiff y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ei ddiweddaru a'i fod yn dangos yn glir sut y bydd asedau'n ategu'r gwaith o gyflawni amcanion corfforaethol.
- Sicrhau y caiff pob ased ei fapio a'i ddeall o ran p'un a oes angen ei gadw fel y mae, newid y defnydd ohono, neu ei waredu.
- Datblygu trefniadau rheoli perfformiad priodol o amgylch y defnydd o asedau.

**Mae'r Cyngor wedi'i ganmol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg am welliannau i'w wasanaethau**

27 Cafodd y Cyngor ei ganmol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg am gyflawni'r rhan fwyaf o'r targedau yn ei Gynllun Iaith Gymraeg. Daeth y Bwrdd i'r casgliad fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i Gynllun ar ôl ei ymarfer arolygu ar wybodaeth a dogfennaeth etholiadol. Canfu hefyd fod darpariaeth well yng nghanolfan cyswllt cwsmeriaid y Cyngor yn golygu y gall y ganolfan ymdrin â mwy o geisiadau yn Gymraeg. Nododd y Bwrdd fod gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Ieithyddol a chwblhau'r Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig bellach yn feysydd â blaenoriaeth i'r Cyngor.

**Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi rhoi seiliau cadarn ar waith i gyflwyno'r Strategaeth Gymunedol: bydd y gwaith o fireinio mesurau gwerthuso perfformiad yn rhoi arwydd cliriach o welliannau a sicrhawyd i ddinasyddion**

28 Mae gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol i baratoi Strategaeth Gymunedol yn dangos sut y byddant yn gweithio gyda sefydliadau eraill, drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, i hyrwyddo a/neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardal. Mae'r Cyngor wedi gwneud llawer o ymdrech i ddatblygu'r Strategaeth Gymunedol i sicrhau bod ei ffocws yn berthnasol i anghenion lleol ac ymrwymiad pob partner. Roedd y defnydd o fforwm lleol yn allweddol i'r broses hon o ymgysylltu â phartneriaid er mwyn ystyried dogfen y Strategaeth ddrafft mewn cynhadledd a alwyd yn benodol at y diben hwn. Cododd y gynhadledd broffil y Strategaeth Gymunedol, gwnaed cyflwyniadau defnyddiol ar syniadau a ffocws, a thynnwyd sylw at broblemau a phryderon i'w datrys wrth gyflawni'r strategaeth. Arweiniodd at ymwybyddiaeth well o ba sefydliadau fyddai'n arwain pa faterion, a rhoddwyd proses ar waith ar gyfer nodi sut y caiff cynnydd ei reoli a'i fesur yn llwyddiannus.

29 Mae 10 o ganlyniadau â blaenoriaeth i'r Strategaeth Gymunedol, ac ar gyfer pob canlyniad ceir rhestr o gyflawniadau disgwyliedig a disgrifiad o sut y caiff y rhain eu cyflawni. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn gyfrifol am bedwar o'r 10 canlyniad â blaenoriaeth a, rhyngddynt, mae'r pum partneriaeth strategol statudol (Dysgu a Sgiliau; Plant a Phobl Ifanc; Bro Ddiogelach; Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, ac Adfywio) yn gyfrifol am y chwe chanlyniad â blaenoriaeth arall.

30 Cynllun Cyflenwi'r Strategaeth Gymunedol (2011-14) yw'r ddogfen sy'n disgrifio sut y caiff blaenoriaethau'r Strategaeth Gymunedol eu cyflawni gan bob un o'r partneriaid. Hefyd, mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol fframwaith ar waith ar gyfer cadarnhau cynnydd a diweddaru'r Cynllun yn rheolaidd. Mae bwriadau'r Cynllun yn canolbwyntio ar ganlyniadau a, gyda rhywfaint o waith mireinio i esbonio man cychwyn neu egluro maint yr effaith ddisgwyliedig, bydd yn fodd o fesur cynnydd.

# Gall y Cyngor ddangos gwelliant yn y rhan fwyaf o feysydd gwasanaeth allweddol ond mae perfformiad o ran darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl yn parhau'n wael er gwaethaf gwelliannau dros y blynyddoedd diwethaf

## Mae'r Cyngor yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i wella diogelwch cymunedol a gwasanaethau i ddefnyddwyr penodol

31 Mae'r Cyngor wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi cyfrannu at wella agweddau ar ddiogelwch cymunedol yn yr ardal.

Arddangosyn 1: Arfer da: Mae'r gwaith o ddarparu gwasanaethau wedi gwella ac mae arbedion effeithlonrwydd wedi'u cyflawni o ganlyniad i leoli staff allweddol ar yr un safle

**Arfer da: Caiff ffyrdd o weithio eu gwella drwy gyd-leoli staff allweddol**

Cafodd staff o nifer o wahanol asiantaethau sy'n gweithio gyda phobl ifanc a'r rheini sy'n wynebu'r risg o droseddu eu dwyn ynghyd i weithio o'r orsaf dân yn y Barri. Darparwyd swyddfeydd yn ogystal â lle i gynnal gwaith ataliol ac adsefydlol.

Mae'r broses o gyd-leoli asiantaethau wedi arwain at nifer o ganlyniadau cadarnhaol, disgwyliedig ac annisgwyl:

- Mae rhannu swyddfeydd wedi cyflymu prosesau cyfathrebu a datrys problemau - mae'r llwyddiant yn cael ei gydnabod yn eang gan gydweithwyr ac, o ganlyniad, mae nifer o swyddogion eraill am symud i'r safle (er enghraifft, y tîm cymorth i ddioddefwyr).
- Mae'n bosibl i swyddogion tân feithrin cydberthnasau gwerthfawr a chadarn gyda phobl ifanc, gan eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau ataliol.

Mae'r gwasanaeth a ddarperir wedi gwella:

- Amseroedd ymateb cyflymach i broblemau sy'n dod i'r amlwg, sydd wedi cyfrannu at ostyngiad o 12 y cant mewn troseddau yn gyffredinol.
- Defnydd gwell o ddeallusrwydd, er enghraifft mapio lle mae digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi digwydd ar benwythnosau sy'n golygu y gellir gwneud gwaith dilynol mwy effeithiol a phenodol ar fore dydd Llun. Yn ystod terfysgoedd yr haf mewn rhan arall o'r wlad, rhoddwyd rhybudd i'r tîm a alluogodd yr heddlu i anfon 25 o swyddogion i'r ardal dan sylw i atal aflonyddwch. Ni fyddai ymateb o'r fath wedi bod yn bosibl o dan y system bapur flaenorol. Erbyn hyn, mae'r wybodaeth gywir yn fwy tebygol o gyrraedd y bobl gywir ar yr adeg gywir.
- Mwy o gysondeb yn y cyngor a roddir i'r cyhoedd. Er enghraifft, yn flaenorol byddai'r heddlu wedi argymell peidio â chadw allweddi ger y drws, ond byddai'r gwasanaeth tân wedi argymell hynny. Mae anghysondebau'n cael eu nodi ac mae llinellau cyfathrebu clir yn cael eu pennu.

32 O ganlyniad i bryderon ymysg y cyhoedd ynghylch pobl ifanc yn camddefnyddio alcohol a'r ffaith y gallant brynu alcohol yn hawdd oddi wrth rai manwerthwyr mewn ardaloedd penodol, aeth tîm Safonau Masnachu'r Cyngor i'r afael â rhaglen o addysg, hyfforddiant a chamau gorfodi ar gyfer manwerthwyr ac ymgyrch yn erbyn goryfed a gwerthu alcohol i bobl o dan 18 oed. Cyflwynwyd hysbysiadau cosb benodedig i rai manwerthwyr o ganlyniad i hyn.

33 Mae Gorchymyn Adsefydlu Pobl Ifanc yn orchymyn a gyflwynir gan lys y gellir ei roi i bobl ifanc o dan 18 oed pan gânt eu dedfrydu am gyflawni trosedd. Fel arfer bydd Gorchymyn Adsefydlu Pobl Ifanc yn cynnwys un neu fwy o ofynion y bydd yn rhaid i'r troseddwr ifanc hwnnw eu bodloni. Gall y rhain gynnwys gofyniad i'r person ifanc gyfarfod â gweithiwr o'r Tîm Troseddau Ieuenctid neu efallai y bydd yn ofynnol i'r person ifanc gydymffurfio â gweithgareddau eraill, megis gwaith di-dâl, cyrffyw neu amodau penodol o ran ble y gall fyw. Cyflwynwyd Gorchmynion Adsefydlu Pobl Ifanc gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ddwy flynedd yn ôl. Nod Gorchymyn Adsefydlu Pobl Ifanc yw helpu'r person ifanc i feddwl am oblygiadau ei ymddygiad a chynllunio i ddatrys anawsterau yn y dyfodol.

34 Mae gweithwyr y Tîm Troseddau Ieuenctid yn gyfrifol am ymgysylltu â'r person ifanc i'w alluogi a'i helpu i ddeall beth sydd angen iddo ei wneud. Gall eu rôl hefyd gynnwys cyfathrebu ag asiantaethau eraill a all fod yn rhan o'r gwaith o fonitro agweddau ar y Gorchymyn Adsefydlu Pobl Ifanc. Roedd gan y tîm lleol bryderon cychwynnol ynghylch yr effaith ar lwyth gwaith, ond drwy gyflwyno rhaglenni ataliol mae wedi lleihau nifer y bobl sy'n ymuno â'r system gyfiawnder am y tro cyntaf 75 y cant ac mae cyfraddau aildroseddu'n lleihau.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol ond mae'r gwaith o ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl yn parhau'n gymharol wan

### Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni gwelliannau mewn Gwasanaethau Cymdeithasol

35 Rôl AGGCC yw cynnal asesiadau proffesiynol a llunio barn broffesiynol ar ofal cymdeithasol, gwasanaethau blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol ac felly annog darparwyr y gwasanaethau i wella. Cyhoeddodd AGGCC ei Hadolygiad Blynyddol a'i Gwerthusiad o Berfformiad ar gyfer 2010-2011 ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ym Mro Morgannwg ym mis Tachwedd 2011, ac mae'n amlinellu nifer o feysydd sy'n perfformio'n dda yn ogystal â meysydd i'w gwella neu eu datblygu. Gellir gweld yr adroddiad llawn ar wefan AGGCC. Mae'r paragraffau canlynol - 36 i 39 - wedi'u cymryd o'r crynodeb o adroddiad AGGCC.

36 Canfu AGGCC dystiolaeth barhaus o gefnogaeth a threfniadau craffu corfforaethol a gwleidyddol o ran gwasanaethau cymdeithasol ym Mro Morgannwg. Mae arweinyddiaeth rheolwyr ym maes gwasanaethau cymdeithasol yn galluogi'r Cyngor i ymgymryd â gwaith cynllunio strategol a datblygu gwasanaethau ochr yn ochr â gwella perfformiad ac ansawdd y gwasanaethau presennol. Er gwaethaf y ffaith nad yw'r Cyngor yn gwario llawer o arian ar rai o'r grwpiau sy'n defnyddio gwasanaethau

cymdeithasol fwyaf (plant, oedolion iau ac oedolion hŷn) bydd yr hinsawdd ariannol heriol sydd wedi cymell gwasanaethau cymdeithasol i fantoli'r gyllideb a chyflawni arbedion dros y tair blynedd diwethaf yn parhau gydag arbedion pellach o bedwar y cant y flwyddyn am y tair blynedd nesaf. Mae gan y Cyngor rai trefniadau pwysig ar waith o ran cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth, ac mae'n eu defnyddio i ddatblygu gwaith integreiddio a threfniadau comisiynu rhanbarthol gydag awdurdodau a sefydliadau iechyd cyfagos.

37 Ceir agenda newid sylweddol i foderneiddio gwasanaethau yn y Cyngor, yn arbennig i oedolion. Daeth AGGCC i'r casgliad y bydd sicrhau llwyddiant yr agenda newid, ym maes cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth ar gyfer plant ac oedolion, yn hanfodol os yw'r Cyngor am gyflawni ei nodau a'i ddyheadau ar gyfer gwasanaethau ochr yn ochr â chyfyngiadau parhaus o ran yr adnoddau sydd ar gael. Bydd y Cyngor am sicrhau bod y newidiadau hyn yn cyflawni ei ddyheadau i sicrhau cymaint o annibyniaeth â phosibl i ddinasyddion ac i hyrwyddo'r annibyniaeth honno, ac y gellir dangos tystiolaeth ohonynt drwy ddangosyddion perthnasol. At hynny, mae gan y Cyngor gynllun strategol ar gyfer datblygu gwaith comisiynu gwasanaethau i oedolion. Mae wedi gwella'r cysylltiadau rhwng trefniadau contractio a sicrhau ansawdd ond mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau i gyflawni gwaith contractio.

38 Canfu AGGCC dystiolaeth o welliant o ran amseroldeb ymateb y Cyngor i geisiadau am gymorth er bod llawer mwy i'w wneud, yn arbennig mewn gwasanaethau i oedolion. Bu gwelliannau hefyd yn ansawdd a chysondeb y gwaith o asesu a rheoli achosion plant. Caiff cynnydd y Cyngor o ran gwella arferion ym maes gwasanaethau i oedolion ei adolygu gan AGGCC yn 2011-12. Mae'r Cyngor wedi dechrau gweithio gyda fframwaith a fydd yn darparu gwybodaeth am y canlyniadau y mae ei wasanaethau'n eu cyflawni i oedolion. Nododd AGGCC fod angen datblygu fframwaith tebyg ar gyfer gwasanaethau plant. Er bod AGGCC wedi canfod tystiolaeth fod canlyniadau da yn cael eu cyflawni o ran plant a phobl ifanc, mae'r rheini ag anghenion cymhleth yn peri her i'r Cyngor o hyd ac mae angen sicrhau gwelliannau o ran sut mae asiantaethau partner yn cefnogi plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal.

39 Daeth AGGCC i'r casgliad fod y dystiolaeth yn dangos bod gan y Cyngor weithlu cymharol sefydlog ar y cyfan ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Gall gadw a recriwtio staff ond mae wedi ei chael yn anodd llenwi ychydig o swyddi rheng flaen penodol. Mae gan y Cyngor systemau ar waith i gefnogi a rheoli staff, gan gynnwys eu perfformiad a'u datblygiad. Mae swyddogaeth hyfforddi a datblygu'r Cyngor, sy'n cefnogi llawer iawn o ddarparwyr gofal cymdeithasol yn y sector annibynnol ynghyd â staff gwasanaethau cymdeithasol, bellach yn fwy effeithiol.

**Nid yw'r Cyngor yn darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn effeithiol eto, ond mae newidiadau sylweddol ar droed a all wella perfformiad**

40 Yn ein hadroddiad yn 2011, nodwyd y byddem yn monitro trefniadau'r Cyngor ar gyfer darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl oherwydd, ar y pryd, roedd ei berfformiad ymysg y gwaethaf yng Nghymru yn ôl yr amser a gymerwyd i ddarparu grant. Yn ei gyllideb ar gyfer 2010-11, darparodd y Cyngor

£1.5 miliwn ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl. Yn 2010-11 cwblhaodd y Cyngor 145 o geisiadau ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl, a darparwyd grantiau gwerth £10,300 ar gyfartaledd.

41 Yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2011-12 mae'r Cyngor yn rhoi datganiad yn nodi bod nifer gyfartalog y diwrnodau a gymerir i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl yn parhau i ostwng. Nid yw'n nodi testun pellach, ond mae'n cynnwys data sy'n dangos, er bod gwelliant o ran yr amser y mae'n ei gymryd ar gyfartaledd i ddarparu grantiau, fod perfformiad y Cyngor yn waeth o lawer na chyfartaledd Cymru o hyd, ac yn rhagweld nad yw'n debygol o ddod yn agos at gyflawni cyfartaledd Cymru am o leiaf dair blynedd arall.

42 Mae data ar berfformiad ledled Cymru yn dangos bod yr amser y mae'n ei gymryd i ddarparu grant yn cymryd 387 o ddiwrnodau ar gyfartaledd. Amrywiodd y ffigur hwn o 202 o ddiwrnodau yng Nghonwy i 680 o ddiwrnodau yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Arddangosyn 2: Er bod gwelliannau wedi'u cyflawni o ran amser darparu dros y blynyddoedd diwethaf, mae trigolion y Fro yn parhau i aros am gyfnod hwy nag eraill yng Nghymru ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl

| Nifer gyfartalog y diwrnodau a gymerir i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 2009-10 | 2010-11 |
|---|---|---|
| **Bro Morgannwg** | 802 | 569 |
| **Cymru** | 349 | 387 |

43 Roedd y data ar gyfer y Cyngor hefyd yn dangos bod plant a phobl ifanc o dan anfantais fawr, gan fod y Cyngor yn cymryd mwy na dwywaith yr amser i ddarparu grant o gymharu â chyfartaledd Cymru.

Arddangosyn 3: Mae plant a phobl ifanc yn wynebu oedi sylweddol o ran darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl o gymharu ag oedolion

| | Bro Morgannwg 2010-11 | Cymru 2010-11 |
|---|---|---|
| **Nifer gyfartalog y diwrnodau a gymerir i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl i blant a phobl ifanc** | 1,139 | 478 |
| **Nifer gyfartalog y diwrnodau a gymerir i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl i oedolion** | 544 | 386 |

44 Ym mis Ebrill 2007 penderfynodd y Pwyllgor Craffu Lles a Diogelwch Cymunedol sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu prinder Therapyddion Galwedigaethol ym Mro Morgannwg, yn bennaf i weld a ellid lleihau'r amseroedd aros ar gyfer asesiadau therapi galwedigaethol er mwyn lleihau'r amser aros cyffredinol ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl. Cyflwynodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen adroddiad ar ei ganfyddiadau ym mis Ionawr 2009.

45 Er bod y Cyngor wedi cyflawni rhai gwelliannau mewn ymateb i ganfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, awgryma ein gwaith diweddar fod ffocws yr adolygiad hwn yn rhy gul ac i'r cyfle i lunio barn ehangach ar y system gyfan gael ei golli. Mae ein gwaith yn nodi bod swyddogion wedi cydnabod diffygion yn y gwasanaeth a'u bod yn rhoi trefniadau ar waith a ddylai eu datrys. Mae'r paragraffau canlynol yn esbonio'r rhesymau dros y casgliad hwn.

46 Yn adolygiadau'r Cyngor, rhoddwyd rhywfaint o sylw i'r rhesymau dros yr amser a dreuliwyd gan ddarparwyr gwasanaethau amrywiol yn ystod y broses grantiau. Er bod gwelliant cyson wedi'i wneud dros y tair blynedd diwethaf, mae swyddogion y Cyngor o'r farn y llesteiriwyd hyn gan gamau i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o waith blaenoriaeth isel ar y rhestr aros. Mae'r amser a gymerir i brosesu grantiau cyfleusterau i'r anabl yn rhy hir o hyd ac mae gwahaniaethau mawr yn yr amser a gymerir gan y tîm mewnol ac asiantau preifat. Mae swyddogion y Cyngor o'r farn mai'r rheswm dros y gwahaniaethau hyn yw bod prosiectau gwaith sylweddol, megis adeiladu estyniadau, yn cael eu trosglwyddo i asiantau allanol. Dywedodd swyddogion wrthym eu bod yn gweithio i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn i geisio cyflymu'r trefniadau a hynny'n rhannol drwy osgoi'r angen i adeiladu estyniadau.

47 Nododd Archwiliad Mewnol o drefniadau a gynhaliwyd yn ystod haf 2011 mai dim ond sicrwydd cyfyngedig y gellid ei roi mewn perthynas â rheolaethau ariannol a gweinyddol yn yr adran grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae'r gwasanaeth yn ymateb i adroddiad yr Archwiliad Mewnol gyda'r bwriad o wella rheolaethau.

48 Hefyd, nid oes digon o eglurder mewn perthynas â chyfrifoldeb dros gynllunio strategol a rheoli'r gwasanaeth. Nid oes digon o sylw wedi'i roi i asesu'r galw strategol am y gwasanaeth grantiau cyfleusterau i'r anabl. Roedd y ffocws ar leihau'r amser darparu o gymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol. Fe'n cynghorwyd bod y Cyngor yn bwriadu gwella trefniadau cynllunio strategol.

49 O ystyried natur ein canfyddiadau a phwysigrwydd y gwasanaeth hwn i ddinasyddion sy'n agored i niwed y mae angen cymorth arnynt i fyw'n annibynnol ac er eu lles, rydym wedi darparu adroddiad ar wahân i'r Cyngor yn esbonio materion yn fanylach sy'n cynnwys ystod o gynigion penodol ar gyfer gwella. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r pwyntiau a amlinellwyd ac mae ganddo gynlluniau i fynd i'r afael â hwy. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar gynnydd yn 2012.

**Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - cynigion ar gyfer gwella**

Gwella perfformiad drwy:

- fireinio prosesau yn unol â chynigion manwl ar gyfer gwella yn Atodiad Un o'n hadroddiad ar wahân ar y pwnc hwn;
- cyflwyno dulliau caffael modern i ddatblygu cytundebau fframwaith a chontractau partneriaeth ar gyfer gwasanaethau grantiau cyfleusterau i'r anabl; a
- dysgu mwy am farn cwsmeriaid ar y broses grantiau cyfleusterau i'r anabl a gwneud newidiadau yn ôl yr angen.

Gwella trefniadau craffu, goruchwylio a rheoli strategol drwy:

- fabwysiadu argymhellion Archwilio Mewnol ar gyfer gwella rheolaethau gweinyddol ac ariannol a thrwy gyflwyno profion archwilio mewnol rheolaidd; a
- datblygu ystod eang o fesurau meintiol ac ansoddol i alluogi'r Cabinet ac aelodau'r pwyllgor craffu i werthuso'r gwasanaethau a ddarperir a'r canlyniadau i ymgeiswyr.

## Mae canlyniadau mewn ysgolion yn dda ond bu dirywiad o ran presenoldeb mewn ysgolion uwchradd

50 Ar y cyfan, mae'r safonau a gyflawnir gan blant a phobl ifanc ym Mro Morgannwg, a ategir gan waith ei ysgolion a'i wasanaeth addysg, yn dda. Pan ystyrir ystod o wybodaeth gyd-destunol, mae perfformiad disgyblion ym Mro Morgannwg yn well na'r cyfartaledd ym mhob cyfnod allweddol ac eithrio cyfnod allweddol 2. Mae'r perfformiad yn dda iawn yng nghyfnod allweddol 4. Yn ôl y rhan fwyaf o ddangosyddion, mae mwy na hanner yr ysgolion uwchradd yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru.

51 Mae Llywodraeth Cymru yn pennu meincnodau perfformiad addysgol ar gyfer cynghorau yng Nghymru sy'n ystyried ffyniant cymharol ardal. Pennir targedau uwch ar gyfer ardaloedd mwy breintiedig gan ddefnyddio'r lefel o hawl i brydau ysgol am ddim fel dangosydd ffyniant. Ystyrir Bro Morgannwg yn ardal gymharol ffyniannus a phennir ei meincnod i adlewyrchu hyn. Roedd perfformiad yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 yn rhagori ar feincnodau Llywodraeth Cymru yn 2010, sef y flwyddyn fwyaf diweddar y ceir data ar ei chyfer. Dyma fel y bu ym mhob un ond un o'r pedair blynedd diwethaf. Nid oes llawer o awdurdodau lleol wedi cyflawni'r lefel hon o berfformiad.

52 Er bod presenoldeb wedi parhau'n dda mewn ysgolion cynradd, bu dirywiad o ran presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. Nid oes digon o ysgolion uwchradd yn y chwarter uchaf o ran presenoldeb o gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi gostwng islaw cyfartaledd Cymru am y tro cyntaf ac mae'r Cyngor wedi gostwng i'r 13eg safle. Yn ôl y meincnod, disgwylir iddo fod oddeutu'r pumed safle. Cynyddodd nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn barhaol o ysgolion yn 2010 ac, er bod gwaharddiadau cyfnod penodol wedi lleihau, mae nifer gyfartalog y diwrnodau a gollwyd o ganlyniad i'r holl waharddiadau yn cynyddu.

## Mae gan y Cyngor drefniadau da ar waith ar gyfer pennu ei amcanion a monitro'r gwaith o gyflawni camau gweithredu ac mae ar gam cynnar o ran gwella'r ffordd y mae'n gwerthuso effaith yr hyn a wna

53 Y llynedd, nodwyd bod y Cyngor wedi mabwysiadu 34 o amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol a nododd y camau yr oedd yn bwriadu eu cymryd rhwng 2010-11 a 2013-14. Mae'r Cyngor yn defnyddio dull systematig o bennu amcanion a chamau gweithredu cysylltiedig yn ei Gynllun Corfforaethol, ac mae'r Cabinet yn adolygu cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hynny yn flynyddol.

54 Adolygodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol yn ystod 2011 a diwygiodd y camau gweithredu arfaethedig. Roedd blaenoriaethau corfforaethol ac amcanion gwella'r Cyngor y cyflwynwyd adroddiad arnynt yn flaenorol yn amodol ar ymgynghoriad helaeth, a nodir cysylltiadau â'r Strategaeth Gymunedol yn Atodiad 4.

55 Mae'r ffordd y mae'r Cyngor wedi geirio ei amcanion gwella, er eu bod yn nodi bwriadau clir a phriodol, yn rhy gyffredinol o ran y 'gwelliant' a fwriedir, ac weithiau maent yn ddatganiad o'r ffordd y mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal ei weithgareddau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cynnwys camau gweithredu sylfaenol penodol yn ei Gynllun Corfforaethol sy'n darparu datganiad cliriach o'r gwelliannau a fwriedir. Gallai'r Cyngor ddarparu mwy o eglurder drwy dynnu sylw at y gweithgareddau hynny y mae'n eu hystyried yn 'amcanion gwella' yn y Cynllun Corfforaethol er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i ddinasyddion am y meysydd hynny lle mae'r Cyngor wedi penderfynu crynhoi ei adnoddau.

56 Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o'i berfformiad ar gyfer 2010-11 a chyhoeddwyd ei Gynllun Gwella ar gyfer 2011/12 ar ei wefan ym mis Hydref 2011. Mae'r Cynllun Gwella yn dwyn ynghyd lawer o wybodaeth am berfformiad y Cyngor yn 2010-11 mewn un ddogfen sy'n 87 tudalen o hyd. Gan fod cymaint o wybodaeth yn cael ei chyflwyno, caiff eglurder y neges ei golli yn aml. Mae'r diffyg hwn yr un mor berthnasol i gyflwyno adroddiadau ar y llwyddiannau ag y mae i nodi lle nad yw nodau wedi'u cyflawni'n llawn.

57 Mae'r Cyngor yn adolygu perfformiad yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn drwy fonitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu a gynlluniwyd i gyflawni bwriad y Cynllun Corfforaethol. Mae aelodau'r Cabinet ac uwch swyddogion hefyd yn cyflwyno adroddiadau ar berfformiad i'r Pwyllgor Craffu bob chwarter. Fodd bynnag, mae angen atgyfnerthu trefniadau craffu ar ganlyniadau perfformiad yn hytrach nag adolygiadau yn erbyn targedau neu gamau gweithredu.

58 Ar hyn o bryd, mae adroddiadau chwarterol ar berfformiad yn aml yn cael eu hystyried gan Bwyllgorau Craffu ymysg nifer fawr o eitemau eraill ar yr agenda. Gall hyn ei gwneud yn anodd i aelodau'r pwyllgor craffu neilltuo digon o amser ar gyfer trafod, dadansoddi a gwerthuso perfformiad. Er bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno ar berfformiad yn erbyn targedau, nid oes gwerthusiad o effaith gweithgarwch na gwerthusiad o'r gwasanaethau a ddarperir ac, mewn rhai achosion, ni roddir esboniad ar berfformiad.

59 Y llynedd gwnaethom gynnig y dylai'r Cyngor bennu mesurau canlyniadau i'w alluogi i nodi effaith ei weithgarwch ar y gymuned a defnyddwyr gwasanaethau. Bu'r cynnydd yn araf. Mae'r Cyngor yn dechrau adolygu ei drefniadau cofnodi perfformiad gyda'r bwriad o lunio gwybodaeth sy'n rhoi darlun cliriach o'r canlyniad i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae

ein hadolygiad o'r adroddiadau i Bwyllgorau Craffu mis Gorffennaf 2011 yn dangos, er ei bod yn amlwg bod perfformiad yn cael ei herio a bod yr angen am drefniadau craffu penodol yn cael ei nodi, mae lle o hyd i'r Cyngor fireinio'r trefniadau cyfredol ar gyfer cyflwyno adroddiadau chwarterol a sicrhau bod gwerthusiad cyson o berfformiad yn cael ei gynnwys.

**Asesiad o berfformiad - cynigion ar gyfer gwella**

Parhau â'r gwaith o ddatblygu mesurau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau drwy symud o drefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddangosyddion perfformiad ac ar gwblhau cam gweithredu, neu fethu â gwneud hynny, a sicrhau:

- y caiff y bwriad ei fynegi mewn ffordd sy'n sicrhau y gellir mesur cynnydd; a
- bod trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn rhoi gwerthusiad rheolaidd o berfformiad i aelodau yng nghyd-destun yr amcan y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol, a chyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni dyletswyddau o dan adran 19, i gyflwyno adroddiad sy'n tystio ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Caiff yr Asesiad Gwella ei lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Fro Morgannwg a Chyngor Bro Morgannwg

## Cyngor Bro Morgannwg

Mae'r Cyngor yn gwario tua £273.1 miliwn y flwyddyn (2011-12). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,185 fesul preswylydd. Yn 2010-11, gwariodd y Cyngor £29.2 miliwn ar eitemau cyfalaf.

Yn 2011-12, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D oedd £1,123.35 y flwyddyn. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 3.47 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r anheddau ym Mro Morgannwg, mae 56.1 y cant ym mandiau treth gyngor A i D.

Ceir 47 o Gynghorwyr ym Mro Morgannwg sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a defnyddio adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnwys Aelodau o'r grwpiau gwleidyddol canlynol:

- 25 o Geidwadwyr Cymru
- 12 o'r Blaid Lafur
- 6 o Blaid Cymru
- 4 o aelodau Annibynnol

Mae gan y Cyngor Gabinet o 10 cynghorydd sy'n gwneud penderfyniadau ar faterion strategol a gweithredol.

**Cabinet**

- Arweinydd, y Cynghorydd Gordon Kemp, Cyllid, TGCh ac Eiddo
- Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Hunter Jarvie, Diogelwch Cyfreithiol a Diogelwch y Cyhoedd
- Y Cynghorydd Geoff Cox, Gwasanaethau Gweladwy ac Adeiladu
- Y Cynghorydd Janice Charles, Adnoddau Dynol a Chydraddoldebau
- Y Cynghorydd Anthony Hampton, Addysg a Dysgu Gydol Oes
- Y Cynghorydd Jeff James, Cynllunio a Chludiant
- Y Cynghorydd Anthony Ernest, Twristiaeth a Hamdden
- Y Cynghorydd Paul Church, Tai a Diogelwch Cymunedol
- Y Cynghorydd Rhodri Traherne, Datblygu Economaidd ac Adfywio
- Y Cynghorydd Dorothy Turner, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal

**Tîm Rheoli Corfforaethol**

- Prif Weithredwr, John Maitland Evans
- Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu, Bryan Jeffreys
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Phil Evans
- Cyfarwyddwr Adfywio Amgylcheddol ac Economaidd, Rob Quick
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Diogelwch y Cyhoedd a Thai, Peter H Evans
- Cyfarwyddwr Cyllid, TGCh ac Eiddo, Sian Davies

## Gwybodaeth arall

**Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol**

- Bro Morgannwg — Jane Hutt
- De Caerdydd a Phenarth — Vaughan Gething

**Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad**

- Andrew R T Davies
- Eluned Parrott
- David Melding
- Leanne Wood

**Aelodau Seneddol**

- Bro Morgannwg — Alun Cairns
- De Caerdydd a Phenarth — Alun Michael

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor ar 01446 700111.

# Atodiad 3
# Cyfrifon Cyngor Bro Morgannwg a'i ddefnydd o adnoddau

## Llythyr Archwilio Blynyddol i Aelodau Cyngor Bro Morgannwg

Yr Arweinydd
Cyngor Bro Morgannwg
Y Ganolfan Ddinesig
Holton Road
Y Barri
CF63 4RU

30 Tachwedd 2011

Annwyl Gynghorydd Kemp

**Llythyr Archwilio Blynyddol i Aelodau Cyngor Bro Morgannwg**

Fel y gwyddoch, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012 a bydd rhai o'r materion a nodwyd yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn draddodiadol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi achub ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Penodedig yn y llythyr byr hwn, sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Bwriedir i'r llythyr fod yn ddogfen annibynnol, ond caiff ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd hefyd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac, felly, mae'n cyflawni fy nghyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Cyngor Bro Morgannwg â'r gofynion o ran cyflwyno adroddiadau ar ei berfformiad ariannol a'i ddefnydd o adnoddau**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau;
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Ar 30 Medi 2011 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd nifer o faterion a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 19 Medi 2011, ac roedd y pwysicaf o'r rhain yn ymwneud â:

- datgeliadau pellach mewn perthynas â Dyledwyr, Credydwyr ac Arian Parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod, er mwyn cydymffurfio â'r cod Cyfrifyddu,
- diwygiadau i gyflwyniad balansau Adrannau 106 a 278 fel y cânt eu datgelu fel Cyfraniadau a gafwyd ymlaen llaw, neu fel Credydwyr, fel y bo'n briodol, a
- chynnwys nodiadau i'r cyfrifon yn esbonio barn gritigol ac amcangyfrifon a gyflwynwyd yn y cyfrifon, yn unol â gofynion y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

O 2010/11, roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru lunio eu cyfrifon yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Gosododd y safonau newydd hyn feichiau ychwanegol sylweddol ar staff cyllid y Cyngor. Er gwaethaf y pwysau ychwanegol hwn, paratowyd y cyfrifon erbyn y terfyn amser statudol.

Mae fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2011.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2011-11 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

**John Golding, Grant Thornton UK LLP**
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

30 Tachwedd 2011

Mae gan etholwyr lleol ac eraill yr hawl i edrych ar gyfrifon y Cyngor. Pan fydd y Cyngor wedi cwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, fel rheol tua mis Mehefin neu fis Gorffennaf, mae'n rhaid iddo hysbysebu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; gallwch hefyd weld pob llyfr, gweithred, contract, bil, taleb a derbynneb sy'n ymwneud â hwy am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu darparu. Gallwch ofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y mae'n ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch roi gwybod i'r archwilydd os ydych o'r farn bod rhywbeth o'i le ar y cyfrifon neu am wastraff neu aneffeithlonrwydd o ran y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, Cyfrifon y Cyngor: eich hawliau, ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bro Morgannwg

## Amcanion gwella

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei saith blaenoriaeth gorfforaethol a'i 34 o amcanion gwella yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2010 yn wreiddiol. Fe'u hadolygodd yn 2011 a gellir eu gweld ar wefan y Cyngor yn: www.bromorgannwg.gov.uk

| Maes a nod â blaenoriaeth | Amcanion Gwella |
|---|---|
| **Arweinyddiaeth gymunedol**<br>Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo trefniadau llywodraethu da a sicrhau bod dull cydlynol ar waith i gyflawni'r weledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol y Fro. | Mynd i'r afael â'r materion hynny sydd bwysicaf i bobl leol, gan ganolbwyntio ar gwsmeriaid wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor.<br>Darparu arweinyddiaeth wrth gynrychioli a hyrwyddo buddiannau'r gymuned leol ac ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion a rhanddeiliaid.<br>Hyrwyddo cydweithio'n fwy â sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau yn y Fro drwy weithio mewn partneriaeth, gan wella ansawdd bywyd ei dinasyddion yn sgîl hynny. |
| **Plant a phobl ifanc**<br>Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod plant a phobl ifanc y Fro yn cael digon o wybodaeth a chymorth i ddefnyddio ystod eang o wasanaethau o safon i'w galluogi i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd bywyd sydd ar gael yn y gymuned leol a thu hwnt. | Darparu amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu. Sicrhau bod pob plentyn yn cael dechrau teg mewn bywyd, yn cynnwys cyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu.<br>Cefnogi plant a phobl ifanc i fwynhau bywyd iach heb unrhyw gamdriniaeth, erledigaeth na cham-fanteisio.<br>Gwella mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol.<br>Sicrhau y gwrandewir ar bob plentyn a pherson ifanc, y cânt eu trin â pharch a chydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol.<br>Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi ei les corfforol ac emosiynol.<br>Sicrhau nad oes unrhyw blentyn na pherson ifanc dan anfantais o ganlyniad i dlodi. |

| Maes a nod â blaenoriaeth | Amcanion Gwella |
|---|---|
| **Dysgu gydol oes a sgiliau**<br><br>Gweithio gyda phartneriaid i wella sgiliau, gwybodaeth a gallu trigolion y Fro i'w helpu i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ac i wella ansawdd eu bywydau. | Gwella canlyniadau i ddysgwyr y tybir eu bod yn agored i niwed oherwydd ystod o ffactorau sy'n effeithio ar eu lles cyffredinol.<br><br>Ymgysylltu â rhieni a chydnabod pwysigrwydd eu rôl yn addysg eu plant ac fel dysgwyr eu hunain.<br><br>Llunio cynlluniau i ddatblygu'r fenter Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, a luniwyd i ddarparu cwricwlwm arloesol gydag amgylchedd dysgu cadarnhaol.<br><br>Defnyddio data ar ddisgyblion ac ysgolion a data cyd-destunol i dargedu ymyriadau a mentrau i wella cyrhaeddiad disgyblion.<br><br>Hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion, colegau, darparwyr dysgu gydol oes a chyflogwyr i roi rhagor o gyfleoedd a llwybrau dysgu i ddysgwyr ôl-16. |
| **Iechyd, gofal cymdeithasol a lles**<br><br>Gweithio gyda phartneriaid i ddiwallu anghenion amrywiol ein trigolion mewn ffyrdd a fydd yn diogelu ac yn rhoi cymorth i'r rheini sydd fwyaf agored i niwed ac sydd â'r angen mwyaf; helpu pobl i gadw'n heini ac yn iach, gwella cydlyniant cymdeithasol a sicrhau cyfle cyfartal i bawb. | Gwella iechyd dinasyddion a'u hannog i fyw bywydau iach.<br><br>Diogelu a gwarchod plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed.<br><br>Sicrhau bod mwy o ddewisiadau ar gael o ran llety i alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol yn y gymuned a llunio mesurau ataliol i ohirio'r defnydd o wasanaethau gofal preswyl.<br><br>Asesu anghenion oedolion y mae angen gofal cymdeithasol arnynt yn gyflymach a'u helpu i ddefnyddio gwasanaethau cost-effeithiol.<br><br>Gwella 'cyfleoedd bywyd' plant a phobl ifanc mewn angen.<br><br>Lleihau lefelau digartrefedd drwy atal, ymyrryd, darparu cyngor a rhoi gwybodaeth yn well. |

| Maes a nod â blaenoriaeth | Amcanion Gwella |
| --- | --- |
| **Diogelwch cymunedol**<br>Gweithio gyda phartneriaid i wneud Bro Morgannwg yn amgylchedd mwy diogel heb unrhyw droseddau, anrhefn nac ofn troseddau drwy gymryd camau ataliol a chadarnhaol. | Codi ymwybyddiaeth o unigolion sy'n dioddef o drais yn y cartref a'u cefnogi.<br>Rhoi mwy o gymorth i droseddwyr cyson iawn a throseddwyr â blaenoriaeth gyda'r nod o annog y grwpiau hyn i beidio â throseddu.<br>Cynnig gwasanaethau trin a gwasanaethau cymorth effeithiol gan dargedu pobl sy'n cael gafael ar alcohol a chyffuriau gormodol yn anghyfreithlon.<br>Meithrin hyder y cyhoedd ac annog cymunedau lleol i gymryd rhan.<br>Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu ac achosion o aildroseddu ymhlith pobl ifanc. |
| **Adfywio**<br>Gweithio gyda phartneriaid i greu cymuned gynaliadwy sy'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o ran twf economaidd, gwelliant cymdeithasol ac adfywiad a diogelwch amgylcheddol. | Diogelu a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig y Fro.<br>Annog twf economaidd mewn partneriaeth ag eraill er mwyn darparu rhagor o gyfleoedd cyflogaeth yn y Fro.<br>Gwella mynediad i'r Fro ac o fewn y Fro ac annog buddsoddiad mewn seilwaith lleol.<br>Cefnogi'r gwaith o ddatblygu cymuned amrywiol a chynaliadwy drwy weithio mewn partneriaeth i wella ansawdd bywyd trigolion y Fro. |
| **Adnoddau corfforaethol**<br>Rheoli gweithlu, arian, gwybodaeth ac asedau'r Cyngor yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiogel. Nodi adolygiad y Cabinet o flaenoriaethau a chamau cysylltiedig Medi 2011. | Darparu trefniadau Rheoli Corfforaethol effeithiol a gwella'r defnydd o adnoddau wrth gyflawni ein hamcanion strategol.<br>Rheoli, cefnogi a datblygu ein cyflogeion i'w galluogi i ddarparu a chynnal gwasanaethau'r Cyngor yn unol â'r safon uchaf bosibl.<br>Gwneud y defnydd gorau o'n hasedau a defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau da a chynaliadwy.<br>Darparu UnFro, rhaglen weddnewid y Cyngor, a sicrhau y caiff technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ei defnyddio mor effeithiol â phosibl i ategu gwasanaethau a ddarperir. |

## Hunanasesiad o berfformiad Bro Morgannwg

Gellir dod o hyd i hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad ar ei wefan yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2011-12 ac adroddiadau cynnydd mewn perthynas â'i Gynllun Corfforaethol. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth am fwriad y gwasanaeth a'r adroddiadau chwarterol ar berfformiad i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor.

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/our_council/achieving_our_vision/improvement.aspx?lang=cy-gb

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk